# POLISI E-DDIOGELWCH

**DYRO DY LAW I MI AC FE AWN I BEN Y MYNYDD**

Drwy gydweithio ac ymddiried yn ein gilydd rydym am sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd i ben mynydd ei allu a'i dalentau. Gwnawn hynny drwy gynnig cyfle, cynhaliaeth ac arweiniad o fewn cymdeithas bositif, eangfrydig, diogel a gwar.

## Gweledigaeth ar gyfer ein disgyblion

Rydym am ddisgyblion rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd yn falch o draddodiad ac etifeddiaeth eu hardal a'u gwlad. Ceisiwn ddinasyddion cytbwys a chyfrifol sy'n parchu hawliau unigolion eraill ac sydd yn gyfforddus a'u hunain. Bydd ganddynt barch at eu meddyliau, eu hysbryd, a'u cyrff ac fe fydd ganddynt orwelion eang a chwilfrydedd am wybodaeth newydd. Meddant ar y medrau angenrheidiol i fanteisio ar her a sialens y dyfodol yn y byd gwaith ac yn y gymdeithas a byddent am barhau i dyfu a datblygu fel dysgwyr gydol oes a dinasyddion y byd.

Mae'r polisi yma yn gymwys i bob aelod o gymuned yr ysgol (gan gynnwys staff, dysgwyr, gwirfoddolwyr, rhieni a gwarchediaid, ac ymwelwyr) sydd â mynediad i ac sy'n ddefnyddwyr o systemau digidol yr ysgol y tu fewn i a thu hwnt i'r ysgol.

**Cynnwys**

1. Cyfrifoldebau

1.1 Llywodraethwyr

1.2 Pennaeth ac Uwch Athrawon

1.3 Cydlynydd Digidol/Arweinydd Strategol Digidol/DPO

1.4 Rheolwr Rhwydwaith

1.5 Athrawon a Staff Cefnogi

1.6 Uwch Berson Dynodedig

1.7 Disgyblion

1.8 Rhieni/Gofalwyr

2. Hyfforddi ac Addysgu

2.1 Disgyblion

2.2 Staff a Gwirfoddolwyr

2.3 Llywodraethwyr

3. Recordio ac Amddiffyn Data

3.1 Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)

3.2 Amddiffyniad Data

4. Defnydd Derbyniol o Dechnoleg

4.1 Dewch a'ch dyfais eich hun

4.2 Defnydd delweddau digidol a fideo

5. Cyfathrebu

6. Cyfryngau Cymdeithasol – Amddiffyn Hunaniaeth Broffesiynol

7. Gweithgareddau Anaddas/Amrhiodol

8. Ymateb i ddigwyddiadau o gamddefnydd

9. Digwyddiadau annerbyniol neu anghyfreithlon

10. Gweithrediadau'r ysgol

11. Defnydd Deallusrwydd Artiffisial

## 1. Cyfrifoldebau

Mae'r adran yma yn amlinellu cyfrifoldebau e-Ddiogelwch unigolion a grwpiau yn yr ysgol:

### 1.1 Llywodraethwyr:

Mae'r llywodraethwyr yn gyfrifol am gymeradwyo'r Polisi e-Ddiogelwch ac am adolygu effeithiolrwydd y polisi.  Bydd aelod o'r Corff Llywodraethu yn cymryd rôl Llywodraethwr yn gyfrifol am e-Ddiogelwch. Bydd yr aelod yma yn:

- Mynychu cyfarfodydd gyda'r Cydlynydd Digidol/ Arweinydd Strategol Digidol/ DPO
- Monitro log digwyddiadau e-ddiogelwch
- Adrodd yn ôl i'r llywodraethwyr

### 1.2 Pennaeth ac Uwch Athrawon

- Mae gan y Pennaeth ddyletswydd i sicrhau diogelwch (gan gynnwys e-Ddiogelwch) pob aelod o gymuned yr ysgol ond gellid dirprwyo'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd i'r Cydlynydd Digidol/ Arweinydd Strategol Digidol/ DPO
- Dylai'r Pennaeth ac (oleiaf) un aelod arall o'r UDA fod yn ymwybodol o'r camau i'w dilyn rhag ofn bod cyhuddiad difrifol diogelwch ar-lein yn cael ei wneud yn erbyn aelod o staff.
- Mae'r Pennaeth/UDA yn gyfrifol am sicrhau fod y Cydlynydd Digidol/ Arweinydd Strategol Digidol/ DPO a staff priodol eraill yn derbyn hyfforddiant priodol er mwyn eu caniatáu nhw i gyflawni eu rôl e-ddiogelwch ac i hyfforddi cyd-weithwyr fel ac y bo'n berthnasol.
- Bydd y Pennaeth/UDA yn sicrhau fod system mewn lle er mwyn caniatau monitro a chefnogi'r rheini o fewn yr ysgol sydd yn cynnal y monitro ar-lein mewnol.  Bydd hyn yn darparu cefnogaeth a gofal i'r sawl sy'n ymgymryd â'r cyfrifoldeb.
- Bydd y Pennaeth/UDA yn derbyn adroddiadau monitro oddi wrth y Cydlynydd Digidol/ Arweinydd Strategol Digidol/ DPO.
- Bydd y Pennaeth/UDA, mewn achos o ddod yn ymwybodol o ddelwedd o ddisgybl yng ngofal yr Ysgol, yn cyd-weithio gyda'r Cydlynydd Digidol/ Arweinydd Startegol Digidol/ DPO i hysbysu'r awdurdodau addas.

### 1.3 Cydlynydd Digidol/ Arweinydd Strategol Digidol/ DPO

- Cymryd cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am faterion e-ddiogelwch ac arwain wrth sefydlu ac adolygu polisïau a dogfennau e-ddiogelwch
- Sicrhau fod staff yn ymwybodol o'r camau sydd angen eu dilyn mewn achos o ddigwyddiad e-ddiogelwch
- Darparu neu drefnu hyfforddiant a chyngor i staff
- Cysylltu â'r awdurdod lleol
- Cysylltu â staff technegol yr ysgol
- Derbyn adroddiadau o ddigwyddiadau e-ddiogelwch a chreu log o ddigwyddiadau er mwyn eu cynnwys mewn datblygiadau e-ddiogelwch
- Cyfarfod yn rheolaidd â'r llywodraethwr e-ddiogelwch i drafod materion cyfredol

- Os yn darganfod fod delwedd anghyfreithlon o blentyn yng ngofal yr ysgol, ynghyd â dilyn y camau diogelu priodol, byddan nhw'n hysbysu'r awdurdodau priodol yn syth er mwyn atal rhannu y ddelwedd a'i gymryd oddi ar y rhyngrwyd.

**1.4 Rheolwr Rhwydwaith/Staff Technegol**

Dyletswydd Computer World Wales (CWW) ydy sicrhau fod mesurau e-Ddiogelwch yn cael eu cyflawni.  Fe fydd y rhwydwaith mor ddiogel a chadarn ac sydd yn rhesymol i'w ddisgwyl a bod y polisi yma yn cael ei weithredu.

- Bydd y systemau technegol yr ysgol yn cael eu rheoli mewn modd sy'n sicrhau fod yr ysgol yn cwrdd â'r gofynion technegol a argymhellir
- Bydd archwiliadau rheolaidd o ddiogelwch systemau technegol yr ysgol yn cael eu cynnal gan CWW
- Bydd cyfrinair ac enw defnyddiwr grŵp ar gael i bob disgybl yn yr ysgol er mwyn cael mynediad i'r rhwydwaith
- Bydd prif gyfrineiriau a chyfrineiriau gweinyddwr sy'n cael eu defnyddio gan Reolwr y Rhwydwaith fod ar gael i'r Pennaeth neu Uwch Arweinydd penodedig arall a chael ei gadw mewn lleoliad diogel
- Bydd mynediad i'r rhyngrwyd yn cael ei hidlo

Mae'r Rheolwr Rhwydwaith yn gyfrifol am:

- Sicrhau fod rhwydwaith mewnol yr ysgol yn ddiogel a heb fod yn agored i gamddefnydd neu ymosodiad maleisus
- Sicrhau fod yr ysgol yn cwrdd â (fel man cychwyn) y gofynion e-ddiogelwch sydd wedi eu hamlinellu gan yr awdurdod lleol a'r polisi e-ddiogelwch hwn
- Sicrhau fod defnyddwyr ond yn cael mynediad i rwydweithiau ac offer drwy system sydd wedi ei hamddiffyn gan gyfrineiriau a bod y cyfrineiriau hynny yn cael eu newid yn rheolaidd
- Sicrhau eu bod nhw'n gymwys i gyflawni'r rôl o Reolwr Rhwydwaith gan gadw i fyny â datblygiadau newydd yn y maes o e-ddiogelwch
- Sicrhau fod y defnydd o'r rhwydwaith, y we, Office 365, e-bost ac unrhyw elfen arall o gyfathrebiad digidol yn cael ei fonitro er mwyn sicrhau fod unrhyw gamddefnydd neu fwriad o gamddefnydd yn cael ei adrodd i'r Pennaeth/Cydlynydd Digidol/ Arweinydd Startegol Digidol/ DPO
- Sicrhau bod unrhyw feddalwedd neu systemau monitro yn cael eu gweithredu a'u diweddaru yn rheolaidd

**1.5 Athrawon a Staff Cefnogi**

Mae athrawon a staff cefnogi yn gyfrifol am:

- Gaffael ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gyfredol o faterion e-ddiogelwch, polisi e-ddiogelwch yr ysgol a'r camau i'w cymryd.
- Ddarllen, deall ac arwyddo'r Cytundeb Defnydd Derbyniol Staff.
- Cofnodi ac adrodd ar unrhyw gamddefnydd neu broblem i'r Pennaeth/ Cydlynydd Digidol/ Arweinydd Startegol Digidol/ DPO er mwyn ei archwilio.

- Gyfathrebu â dysgwyr, rieni neu warchodwyr ar lefel broffesiynol gan ddefnyddio systemau swyddogol yr ysgol
- Gynnwys materion e-ddiogelwch mewn pob math o agweddau o'r cwricwlwm ac o weithgareddau gwahanol.
- Wneud yn siŵr fod dysgwyr yn deall ac yn dilyn y cytundebau defnydd derbyniol.
- Sicrhau fod dealltwriaeth dda gan ddisgyblion o sgiliau ymchwilio a'r angen i osgoi llên-ladrad a chynnal rheolau hawlfraint.
- Fonitro'r defnydd o dechnoleg ddigidol, ffônau symudol, camerâu a.y.y.b mewn gwersi a gweithgareddau (ple bo caniatâd i'w defnyddio) ac yna i weithredu'r polisïau priodol i'r dyfeisiau yna.
- Mewn gwersi ble bo defnydd o'r we wedi ei gynllunio o flaen llaw, dylai dysgwyr gael eu llywio i wefannau sydd wedi eu gwirio o ran priodolrwydd i'r disgyblion ac yna i weithredu'r polisi pe bai deunydd anweddus yn cael ei ddarganfod mewn cyrchiadau ar y we.

**1.6 Uwch Berson Dynodedig**

Blaenoriaeth yr ysgol ar bob achlysur ydy i ddiogelu'r gymuned ysgol fel corff cyfan ac fel unigolion yn y corff hwnnw. Dylid fod yr Uwch Berson Dynodedig wedi ei hyfforddi mewn materion diogelu a bod yn ymwybodol o'r potensial i ddigwyddiadau diogelu difrifol godi o:

- Rannu data personol
- Gael mynediad i ddeunyddiau anghyfreithlon neu anweddus
- Gyswllt amhriodol ar-lein gydag oedolion cyfarwydd neu ddieithr
- Seibr-fwlio
- Y potensial ar gyfer neu ddigwyddiadau go iawn o ddynesu at blant er mwyn cam-drin rhywiol

**1.7 Disgyblion**

- Cyfrifol am ddefnyddio systemau technoleg ddigidol yn unol â'r Cytundeb Defnydd Priodol
- Caffael ar ddealltwriaeth dda o sgiliau ymchwilio a'r angen i osgoi llên-ladrad a chynnal rheolau hawlfraint
- Angen deall y pwysigrwydd o gofnodi ac adrodd camddefnydd, cam-drin neu gael mynediad i adnoddau anweddus a gwybod sut mae gwneud felly
- Bydd disgwyl i'r disgyblion wybod a deall y rheolau am y defnydd o ddyfeisiau cludadwy. Dylen nhw hefyd wybod a deall y rheolau priodol ynglŷn â chymryd lluniau a seibr-fwlio
- Dylai disgyblion ddeall y pwysigrwydd o fabwysiadau arfer dda o e-ddiogelwch wrth ddefnyddio technoleg ddigidol tu hwnt i ffiniau'r ysgol a deall fod polisi'r ysgol yn gymwys os ydy'r disgybl yn cymryd rhan mewn gweithred neu ddigwyddiad sydd i wneud â'r ysgol.

**1.8 Rhieni a Gofalwyr**

**Rhwydweithio Cymdeithasol a pholisi diogelwch Ar-lein**

Mae'r defnydd o ddyfeisiau symudol, tabledi a chyfrifiaduron yn cynyddu o hyd ac mae plant yn defnyddio dyfeisiau at ddibenion cymdeithasol ac addysgol o oedran cynnar iawn. Mae'n hanfodol bod cadw'n ddiogel ar-lein yn flaenoriaeth i ysgolion a rhieni/gofalwyr ac er y gall yr ysgol helpu i fonitro ac arwain

defnydd yn ystod y diwrnod ysgol, mae angen i rieni fod yn wyliadwrus a chymryd rhan yng ngweithgareddau ar-lein eu plentyn y tu allan i'r amseroedd hyn. Mae'r oedrannau a amlinellir mewn cynnwys sy'n gyfyngedig i oedran wedi'u dynodi drwy ymgynghori â'r Cyfryngau Cymdeithasol / Crewyr Apiau a Darlledwyr ynghyd â gwarchodwyr a rheoleiddwyr y Llywodraeth, ac fel y cyfryw mae ein hysgol yn cefnogi'r cyfyngiadau oedran a argymhellir ac yn disgwyl i rieni gefnogi'r cyfyngiadau oedran hyn hefyd. https://staffnet.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Schools/Schools-HR-Policies/Internet-Social-Networking-Schools-Policy.pdf

Mae rôl allweddol gan rieni a gofalwyr i'w gyflawni i sicrhau fod eu plant yn defnyddio technoleg mewn modd priodol a diogel. Bydd yr ysgol yn cymryd pob cyfle posib i helpu rhieni i ddeall y materion yma. Bydd rhieni a gofalwyr yn cael eu hannog i gefnogi'r ysgol wrth hyrwyddo arfer dda o e-ddiogelwch ac i ddilyn canllawiau ar y defnydd priodol o:

- Luniau neu fideo sydd wedi ei gymryd neu ei greu mewn digwyddiad ysgol
- Gyfryngau cymdeithasol.
- Galedwedd a meddalwedd sydd yn eiddo i’r ysgol ond at ddefnydd y plant

**2. Hyfforddi ac Addysgu**

**2.1 Disgyblion**

Mae addysgu disgyblion mewn e-Ddiogelwch o'r pwysigrwydd pennaf ac felly, yn rhan greiddiol o ddysgu ac addysgu ar lawr y dosbarth. Mae angen cymorth a chefnogaeth ar y disgyblion gan yr ysgol er mwyn adnabod ac osgoi risg a pheryg ar y we.

Dylai e-Ddiogelwch fod yn ffocws ym mhob agwedd o'r cwricwlwm a dylai staff atgyfnerthu negeseuon e-Ddiogelwch ar draws y cwricwlwm. Dylai'r cwricwlwm fod yn eang, yn berthnasol a darparu datblygiadau gyda chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau creadigol fydd wedi eu darparu yn y ffyrdd canlynol:

1. Cwricwlwm ddigidol wedi ei gynllunio ar draws amrywiaeth o bynciau
2. Prif negeseuon e-Ddiogelwch i'w hatgyfnerthu mewn rhaglen o wasanaethau a gweithgareddau bugeiliol
3. Dylai disgyblion gael eu haddysgu i fod yn ymwybodol o'r adnoddau digidol y maent yn eu defnyddio gan wirio cywirdeb y ffynhonnell.
4. Dylai disgyblion gael eu dysgu i gydnabod y ffynhonnell wybodaeth a ddefnyddir ac i barchu hawlfraint wrth ddefnyddio gwybodaeth neu adnoddau aml-gyfrwng a ddarganfuwyd ar y we.
5. Pan fo defnydd o’r rhyngrwyd wedi ei gynllunio ymlaen llaw, yr arfer orau ydy fod disgyblion yn cael eu tywys at wefannau sydd wedi eu gwirio ac sydd yn addas ar gyfer eu defnydd nhw ac, pe bai adnoddau amhriodol neu anweddus yn cael eu darganfod, eu bod nhw'n dilyn y camau priodol.
6. Os ydy disgyblion yn defnyddio’r we, dylai staff fod yn wyliadwrus gan fonitro'r gwefannau mae disgyblion yn eu defnyddio.
7. Pan yn defnyddio AI mae angen i staff sicrhau fod disgyblion yn ymwybodol o’r rheolau sy’n ymwneud a defnydd derbyniol/ annerbyniol

**2.2 Staff/Gwirfoddolwyr**

Mae'n hanfodol fod staff yn derbyn hyfforddiant e-Ddiogelwch ac yn deall eu cyfrifoldebau fel ag y sydd yn cael eu manylu yn y polisi yma. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu a bydd y Cydlynydd Digidol/ Arweinydd Startegol Digidol/ DPO yn darparu cyngor a hyfforddiant i unigolion yn ôl yr angen.

**2.3 Llywodraethwyr**

Dylai llywodraethwyr gymryd rhan mewn hyfforddiant e-Ddiogelwch sy'n cael ei gynnig gan yr Awdurdod Lleol yn arbennig os ydy'r aelodau hynny o'r corff llywodraethu ar is-bwyllgorau technoleg neu ddiogelu plant.

**3. Recordio ac Amddiffyniad Data**

**3.1 Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)**

Mae Cyfarpar wedi eu osod o fewn ac o amgylch adeiladau'r ysgol er mwyn diogelu rhanddeiliaid, eiddo a rheolau/ gwerthoedd yr ysgol. Gweler y polisi 'Defnydd o Deledu Cylch Cyfyng'

**3.2 Amddiffyniad Data**

Bydd data personol yn cael ei gofnodi, ei brosesu, ei drosglwyddo ac ar gael yn ôl y Ddeddf Amddiffyn Data 1998 sydd yn datgan bod rhaid i ddata personol:

- Cael ei brosesu'n deg ac yn gyfreithiol
- Cael ei brosesu ar gyfer pwrpas cyfyngedig
- Bod yn ddigonol, yn berthnasol a ddim yn ormodol
- Bod yn gywir
- Peidio cael ei gadw am hirach nag sydd angen
- Cael ei brosesu mewn cytundeb â hawliau'r pwnc data
- Bod yn ddiogel
- Dim ond i gael ei drosglwyddo i eraill sydd ag amddiffyniad digonol.

Mae'n rhaid i'r ysgol sicrhau:

- Ei fod yn cadw'r isafswm lleiaf o ddata personol sydd ei angen i gyflawni'r swyddogaeth orau ac i beidio cadw 'r data yn hirach nag sydd angen ar gyfer y pwrpas cafodd ei gasglu
- Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod data sy'n cael ei gadw yn gywir, yn gyfoes a bod unrhyw anghywirdeb yn cael ei gywiro heb oedi diangen.
- Bydd dod o hyd i ddata personol yn cael ei wneud yn deg ac mewn cytundeb â'r "Rhybudd Preifatrwydd" ac yn cael ei brosesu yn gyfreithiol mewn cytundeb â'r "Amodau ar gyfer Prosesu".
- Bod ganddo Bolisi Amddiffyn Data
- Ei fod wedi cofrestru fel Rheolwr Data ar gyfer pwrpas y Ddeddf Amddiffyn Data
- Ei fod yn cydymffurfio â gofynion GDPR Mai 2018

Mae angen i'r staff sicrhau eu bod nhw'n:

- Cymryd gofal i sicrhau diogelwch data personol trwy'r adeg, yn lleihau'r risg o'i golli neu ei gamddefnyddio.
- Defnyddio data personol ar gyfrifiaduron a dyfeisiau eraill diogel sydd wedi'u hamddiffyn gan gyfrinair yn unig, yn sicrhau eu bod wedi "allgofnodi" ar ddiwedd unrhyw sesiwn ble maent yn defnyddio data personol.
- Trosglwyddo data gan ddefnyddio amgryptio a dyfeisiau sydd wedi'u hamddiffyn gyda chyfrinair diogel.

Dylai athrawon osgoi cadw data personol ar systemau cludadwy.  Arfer orau systemau cludadwy ydy eu cadw nhw ar gyfer cynlluniau, adnoddau a phethau dosbarth ac nid i gadw gwybodaeth bersonol arnyn nhw.  Darperir storfa gwmwl i staff drwy O365 ar gyfer arbed gwybodaeth.

## 4. Defnydd Derbyniol o Dechnoleg

### 4.1 Dewch a'ch Dyfais eich Hun

Yn yr ysgol gynradd does dim caniatâd gan ddisgyblion i ddod â dyfeisiau eu hunain i'r ysgol nac chwaith i'w cymryd gyda nhw ar drip diwrnod na thrip preswyl.
Mae caniatâd i fyfyrwyr CA5 i ddod a dyfeisiau i mewn a'i defnyddio ar rwydwaith diwifr diogel o fewn yr ysgol.

### 4.2 Defnydd delweddau digidol a fideo

Gall rhannu delweddau digidol a fideo fod o fudd enfawr i ysgolion, rieni neu ofalwyr a phlant. Yn y dosbarth, mae caniatad i ddisgyblion gael mynediad cyflym i ddelweddau maent wedi recordio eu hunain neu wedi lawr lwytho o'r rhyngrwyd. Yn hynny o beth mae yna beryg cynhenid sydd angen rhybuddio disgyblion ac oedolion ohono. Gall y fath ddelweddau ddarparu cyfleoedd i seibrfwlio ddigwydd. Gall delweddau digidol aros ar y rhyngrwyd am byth a gallant achosi niwed neu gywilydd i unigolion yn y byrdymor neu'r hirdymor. Mae'n gyffredin i gyflogwyr gynnal chwiliadau ar y rhyngrwyd am wybodaeth am gyflogwyr posib neu bresennol. Bydd yr ysgol yn hysbysu ac yn addysgu defnyddwyr am y peryglon yma ac yn gweithredu polisïau i leihau'r tebygrwydd o botensial niwed:

- Wrth ddefnyddio delweddau digidol, dylai staff hysbysu ac addysgu myfyrwyr / disgyblion am y peryglon sy'n gysylltiedig â thynnu, defnyddio, rhannu, cyhoeddi a dosbarthu delweddau. Yn benodol, dylent adnabod y peryglon sydd yn gysylltiedig â chyhoeddi delweddau eu hunain ar y rhyngrwyd e.e. ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol.
- Dylid cymryd gofal wrth dynnu delweddau digidol/fideo bod disgyblion wedi'u gwisgo'n addas a ddim yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gall ddwyn anfri ar unigolyn neu'r ysgol.
- Ni ddylai disgyblion dynnu, defnyddio, rhannu, cyhoeddi nac dosbarthu delweddau o eraill heb ganiatâd.
- Ni ddefnyddir enwau llawn myfyrwyr / disgyblion ar wefan, blog neu gyfryngau cymdeithasol, yn enwedig wedi'i gysylltu i luniau.

- Bydd caniatâd ysgrifenedig gan rieni yn cael ei sicrhau cyn i luniau’r disgyblion gael eu cyhoeddi ar wefan swyddogol neu gymdeithasol yr ysgol

## 5. Cyfathrebu

Mae amrywiaeth eang o dechnolegau cyfathrebu sydd yn datblygu'n sydyn iawn efo'r potensial i fwyhau dysgu. Mae'r tabl dilynol yn dangos sut mae'r ysgol yn ystyried os yw buddion defnyddio'r technolegau yma ar gyfer addysg yn gorbwyso'r risgiau/anfanteision.

| | Staff ac oedolion eraill | | | | Disgyblion | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Technoleg Cyfathrebu | Caniateir | Weithiau | Caniateir i staff | Ni Chaniateir | Caniateir | Ar amseroedd | Caniateir gyda | Ni chaniateir |
| Dod â ffonau symudol i’r ysgol | √ | | | | √ | | | |
| Defnyddio ffonau symudol mewn gwersi | | | | √ | | | | √ |
| Defnyddio ffonau symudol mewn cyfnodau cymdeithasol | √ | | | | | | | √ |
| Tynnu lluniau gyda ffôn symudol | | | | √ | | | | √ |
| Defnyddio dyfeisiau symudol eraill sy’n eiddo i’r ysgol e.e. tabledi | √ | | | | | | √ | |
| Defnyddio cyfeiriadau e-bost personol yn yr ysgol | | | | √ | | | | √ |
| Defnyddio e-bost ysgol ar gyfer e-bost personol | | | | √ | | | | √ |
| Defnyddio apiau negeseuo ar gyfer materion addysgol | | | | √ | | | | √ |
| Defnyddio cyfryngau cymdeithasol | | | | √ | | | | √ |
| Defnyddio Hwb/ Office 365 a’i gydrannau | √ | | | | √ | | | |

Wrth ddefnyddio technolegau cyfathrebu mae'r ysgol yn ystyried y canlynol fel ymarfer da:

- Yr unig ffordd a ganiateir i staff gyfathrebu yn ddigidol gyda disgyblion yw drwy Teams swyddogol yr Ysgol neu drwy gyfrifon ebost swyddogol ysgol yr aelod o staff a’r disgybl
- Gall gwasanaeth e-bost swyddogol yr ysgol gael ei ystyried yn ddiogel ac mae'n cael ei fonitro. Dylai defnyddwyr fod yn ymwybodol bod cyfathrebiadau e-bost yn cael eu monitro.
- Dylai defnyddwyr adrodd i'r person enwebedig yn syth - mewn cytundeb â pholisi'r ysgol - os ydynt yn derbyn unrhyw gyfathrebiad sydd yn gwneud iddynt deimlo'n anghyffyrddus, os yw'n natur sarhaus, wahaniaethol, bygythiol neu'n bwlio, ni ddylid ymateb i'r fath gyfathrebiad.

6. **Cyfryngau Cymdeithasol - Amddiffyn Hunaniaeth Broffesiynol**

Mae'r ysgol yn darparu'r mesuriadau canlynol i sicrhau bod camau rhesymol mewn lle i leihau'r perygl o niwed i ddisgyblion, staff a'r ysgol wrth gyfyngu mynediad i wybodaeth bersonol:

- Hyfforddiant i gynnwys: defnydd derbyniol; peryglon cyfryngau cymdeithasol; gwirio gosodiadau; amddiffyn data; adrodd materion.
- Arweiniad adrodd clir, gan gynnwys cyfrifoldebau, trefn a sancsiynau
- Nad oes unrhyw gyfeiriad tuag at fyfyrwyr/disgyblion, rhieni/gofalwyr na staff ysgol mewn cyfryngau cymdeithasol heb ganiatâd yr unigolyn.
- Nad ydynt yn cysylltu mewn trafodaeth ar-lein ar faterion personol yn ymwneud ag aelodau cymuned yr ysgol
- Nad yw barn bersonol yn cael ei briodoli i'r ysgol neu'r awdurdod lleol

7. **Gweithgareddau anaddas/amhriodol**

Mae yna weithgareddau ar-lein sydd yn anghyfreithlon e.e. cyrchu delweddau camdriniaeth plant neu rannu deunydd hiliol ac yn amlwg bydd hyn yn cael ei wahardd o'r ysgol a phob system dechnegol arall.  Bydd gweithgareddau eraill e.e. seibrfwlio yn cael ei wahardd a gallai arwain at erlyniad troseddol. Ond mae yna amrywiaeth o weithgareddau sydd efallai, yn gyfreithiol yn gyffredinol, ond fydda'n amhriodol mewn cyd-destun ysgol, oherwydd oedran y defnyddwyr neu natur y gweithgareddau yma.

Mae'r ysgol yn credu bydda'r gweithgareddau yn yr adran ganlynol yn amhriodol yng nghyd-destun yr ysgol ac na ddylai defnyddwyr, fel diffiniwyd isod, gymryd rhan yn y gweithgareddau yma yn yr ysgol nac y tu allan i'r ysgol wrth ddefnyddio offer neu systemau'r ysgol.  Mae polisi'r ysgol yn cyfyngu defnydd fel y canlyn:

| | | Derbyniol | Derbyniol ar adegau | Derbyniol i ddefnyddwyr | Annerbyniol | Annerbyniol ac |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ni fydd defnyddwyr yn ymweld â gwefannau, yn creu, postio, lawr lwytho, llwytho i fyny, trosglwyddo data, cyfathrebu na phasio, deunydd, cynigion nac sylwadau sydd yn cynnwys neu'n cysylltu i: | Delweddau camdriniaeth rywiol plant - Creu, cynhyrchu neu ddosbarthu delweddau anweddus o blant. Yn groes i'r Ddeddf Amddiffyn Plant 1978 | | | | | |
| | Paratoi (grooming), anogaeth, trefnu neu hwyluso gweithrediadau rhywiol yn erbyn plant. Yn groes i'r Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 | | | | | |
| | Meddiannu ar ddelwedd bornograffig eithafol (hynod sarhaus, ffiaidd neu fel arall o gymeriad brwnt). Yn groes i'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 | | | | | |
| | Deunydd hiliol troseddol yn y DU - i ysgogi casineb crefyddol (neu gasineb ar sail tueddfryd rhywiol) - yn groes i'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 | | | | | |
| | Pornograffi | | | | | |
| | Hyrwyddo unrhyw fath o wahaniaethu | | | | | |
| | Ymddygiad bygythiol, gan gynnwys hyrwyddo trais corfforol neu niwed meddyliol | | | | | |
| | Unrhyw wybodaeth arall gallai fod yn sarhaus i gyd-weithwyr neu'n torri cyfanrwydd ethos yr ysgol neu'n dwyn anfri ar yr ysgol. | | | | | |
| Defnyddio systemau'r ysgol i redeg busnes preifat | | | | | | |
| Defnyddio systemau, apiau, gwefannau neu fecanweithiau eraill sydd yn osgoi'r hidlo neu ddiogelu arall sydd yn cael ei ddefnyddio gan yr ysgol | | | | | | |
| Torri hawlfraint | | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Amlygu neu gyhoeddi gwybodaeth gyfrinachol neu berchnogol (e.e. gwybodaeth gyllidol / personol, cronfeydd data, codau mynediad a chyfrineiriau cyfrifiadur / rhwydwaith) | | | | | |
| Amlygu neu gyhoeddi gwybodaeth gyfrinachol neu berchnogol (ee gwybodaeth gyllidol / personol, cronfeydd data, codau mynediad a chyfrineiriau cyfrifiadur / rhwydwaith) | | | | | |
| Creu neu ledaenu firysau cyfrifiadurol neu ffeiliau niweidiol eraill | | | | | |
| Defnydd annheg (lawr lwytho / llwytho i fyny ffeiliau mawr sydd yn rhwystro eraill yn eu defnydd o'r rhyngrwyd) | | | | | |
| Chwarae gemau ar-lein (addysgiadol) | | | | | |
| Chwarae gemau ar-lein (ddim yn addysgiadol) | | | | | |
| Gamblo ar-lein | | | | | |
| Siopa ar-lein | | | | | |
| Rhannu ffeiliau proffesiynol | | | | | |
| Defnydd o gyfryngau cymdeithasol (cyfrif swyddogol ysgol) | | | | | |
| Defnydd o apiau negeseuo (rhwng staff yn unig) | | | | | |
| Defnydd o ddarlledu fideo e.e. YouTube | | | | | |

**8. Ymateb i ddigwyddiadau o gamddefnydd**

Bwriedir i'r adran yma gynnig arweiniad pan fydd angen rheoli digwyddiadau sydd yn cynnwys y defnydd o wasanaethau ar-lein. Gall y digwyddiadau hynny gynnwys gweithgareddau anghyfreithlon neu anaddas.

**9. Digwyddiadau annerbyniol neu anghyfreithlon**

Gobeithir bod holl aelodau cymuned yr ysgol yn ddefnyddwyr cyfrifol o dechnolegau digidol, fydd yn deall ac yn dilyn polisi'r ysgol. Ond, efallai bydd adegau pan fydd tor polisi yn digwydd, trwy gamddefnydd esgeulus, anghyfrifol ac, yn brin iawn, bwriadol. Os oes unrhyw amheuaeth bod gweithred yn anghyfreithlon neu fod y gwefan(nau) dan sylw yn cynnwys delweddau camdriniaeth plant, bydd angen cyfeirio y wybodaeth at y Person Diogelu Dynodedig neu'r Pennaeth yn syth.

Os yw cynnwys yn cael ei adolygu sydd yn cynnwys delweddau o gamdriniaeth plentyn yna bydd angen i'r Person Diogelu Dynodedig neu'r Pennaeth gyfeirio at yr Heddlu'n syth. Byddai enghreifftiau eraill i adrodd at yr heddlu yn cynnwys:

- digwyddiadau o ymddygiad 'paratoi' (grooming)
- gyrru deunydd brwnt i blentyn
- deunydd i oedolion sydd yn anweddus
- deunydd hiliol troseddol
- ymddygiad, gweithgaredd neu ddeunydd troseddol fel arall

**10.Gweithrediadau'r Ysgol**

Mae'n fwy tebygol bydd yr ysgol angen delio â digwyddiadau sydd yn cynnwys camddefnydd amhriodol yn hytrach nag anghyfreithlon. Mae'n bwysig bod ymateb sydyn i unrhyw ddigwyddiadau mewn modd cyfatebol, a bod aelodau cymuned yr ysgol yn ymwybodol bod ymateb wedi bod i ddigwyddiadau. Y bwriad ydy bod ymdriniaeth i ddigwyddiadau o gamddefnydd yn cael ei wneud trwy weithdrefnau ymddygiad arferol fel a ganlyn:

**DISGYBLION**

| | Cosb mewnol e.e.YCY, dileu hawliau mynediad rhwydwaith | Cosb bellach e.e. diarddeliad | Cyfeirio at yr Heddlu |
|---|---|---|---|
| Cyrchu neu geisio cael mynediad i ddeunydd gall ei ystyried yn anghyfreithlon ar bwrpas | | | |
| Defnydd o wefannau sydd ddim yn addysgiadol yn ystod gwersi heb awdurdod | | | |
| Defnydd o ffonau symudol / camera digidol / dyfeisiau symudol eraill heb awdurdod | | | |
| Defnydd o gyfryngau cymdeithasol / apiau negeseuo / e-bost personol heb awdurdod | | | |
| Lawr lwytho neu lwytho ffeiliau i fyny heb awdurdod | | | |
| Caniatáu eraill i gael mynediad i rwydwaith yr ysgol wrth rannu enw defnyddiwr a chyfrineiriau | | | |
| Ceisio, neu gael mynediad i rwydwaith yr ysgol gan ddefnyddio cyfrif myfyriwr / disgybl arall | | | |
| Ceisio, neu gael mynediad i rwydwaith yr ysgol gan ddefnyddio cyfrif aelod o staff | | | |
| Llygru neu ddinistrio data defnyddwyr eraill | | | |
| Gyrru e-bost, testun neu neges sydd yn cael ei ystyried yn sarhaus, yn aflonyddu neu'n bwlio yn ei natur | | | |
| Gweithrediadau gall ddwyn anfri ar yr ysgol neu dorri cyfanrwydd ethos yr ysgol. | | | |
| Defnyddio gwefannau procsi neu fodd arall i wyrdroi system hidlo'r ysgol | | | |
| Cael mynediad i ddeunydd sarhaus neu bornograffig ar ddamwain a ddim yn adrodd y digwyddiad | | | |
| Cael, neu geisio cael mynediad i ddeunydd sarhaus neu bornograffig | | | |
| Derbyn neu drosglwyddo deunydd sydd yn torri hawlfraint person arall neu'n torri'r Ddeddf Amddiffyn Data | | | |

**STAFF**

| | Rhybudd | Gweithred Ddisgyblaethol | Gwaharddiad | Cyfeirio at yr heddlu |
|---|---|---|---|---|
| Cyrchu neu geisio cael mynediad i ddeunydd gall ei ystyried yn anghyfreithlon yn bwrpasol | | | | |
| Defnydd personol anaddas o'r rhyngrwyd / cyfryngau cymdeithasol / e-bost personol | | | | |
| lawr lwytho neu lwytho ffeiliau i fyny heb awdurdod | | | | |
| Caniatáu eraill i gael mynediad i rwydwaith yr ysgol wrth rannu enw defnyddiwr a chyfrineiriau neu geisio, neu gael mynediad i rwydwaith yr ysgol gan ddefnyddio cyfrif person arall | | | | |
| Defnydd anghyfrifol o ddata personol ee cadw neu drosglwyddo data mewn modd anniogel | | | | |
| Gweithrediadau bwriadol i dorri amddiffyniad data neu reolau diogelwch rhwydwaith | | | | |
| Llygru neu ddinistrio data defnyddwyr eraill neu achosi niwed bwriadol i galedwedd neu feddalwedd | | | | |
| Gyrru e-bost, testun neu neges sydd yn cael ei ystyried yn sarhaus, yn aflonyddu neu'n bwlio yn ei natur | | | | |
| Defnyddio e-bost personol/rhwydweithio cymdeithasol /negeseuo sydyn/negeseuo testun i gyfathrebu'n ddigidol gyda myfyrwyr/disgyblion | | | | |
| Gweithrediadau gallai beryglu safle proffesiynol yr aelod staff | | | | |
| Gweithrediadau gall ddwyn anfri ar yr ysgol neu dorri cyfanrwydd ethos yr ysgol. | | | | |
| Defnyddio gwefannau procsi neu fodd arall i wyrdroi system hidlo'r ysgol | | | | |
| Cael mynediad i ddeunydd sarhaus neu bornograffig ar ddamwain a ddim yn adrodd y digwyddiad | | | | |
| Cael, neu geisio cael mynediad i ddeunydd sarhaus neu bornograffig yn bwrpasol | | | | |
| Torri hawlfraint neu reolau trwyddedu | | | | |

**12. Defnydd Deallusrwydd Artiffisial (AI)**

Tra bod hawl ac annogaeth i staff a disgyblion ddefnyddio AI i ganfod gwybodaeth, lleihau swmp gwaith ac I wella ansawdd Gwaith, mae angen I ddefnyddwyr ystyried pa ddefnydd a ganiateir/ ni chaniateir ac I sicrhau nad yw eu defnydd o AI yn eu peryglu nac yn peryglu rhanddeiliaid eraill neu unrhyw agwedd o fywyd a chymuned yr ysgol.  Gweler y polisi **Deallusrwydd Artiffisial.**

| | **Llofnod** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Cymeradwywyd gan Rhys Angell Jones<br>Pennaeth | | 15.10.25 |
| Cymeradwywyd gan Rob Evans<br>Cadeirydd y Llywodraethwyr | | 15.10.25 |